BIS | Department for Business Innovation & Skills

DOGFEN YMGYNGHOROL

# Diwygio Deddf Datblygu Diwydiannol 1982

20 GORFFENNAF 2011

# Cynnwys

1. Diwygio Deddf Datblygu Diwydiannol 1982 ... 3

2. Crynodeb Gweithredol ... 4

3. Sut i ymateb ... 5

4. Copïau ychwanegol ... 5

5. Cyfrinachedd a Diogelu Data ... 6

6. Ymgynghoriadau eraill gan Lywodraeth y DU ... 6

7. Cymorth gydag ymholiadau ... 6

8. Y cynigion ... 7

8.1 Map Ardaloedd a Gynorthwyir (IDA adran 7) ... 7

8.2. Terfyn Ariannol Fesul Prosiect >£10m ac alinio gwarantau mewn arian tramor fesul prosiect (IDA adran 8(8)) ... 8

8.3. Ychwanegu Telathrebu a Band Eang at y "gwasanaethau sylfaenol" (IDA adran 13(2)) ... 9

8.4 Gallu rheoli tir sy'n eiddo i'r llywodraeth (IDA adran 14(4)) ... 10

9. Cwestiynau'r ymgynghoriad ... 10

10. Beth sy'n digwydd nesaf? ... 11

11. Dolenni ... 11

Atodiad 1: Meini Prawf Côd Ymddygiad yr Ymgynghoriad ... 12

Atodiad 2: Rhestr o Unigolion/Sefydliadau yn yr ymgynghoriad ... 13

Atodiad 3: Asesiad Effaith ... 14

Atodiad 4: Ffurflen ymateb Diwygio'r Ddeddf Datblygu Diwydiannol ... 15

# 1. Diwygio Deddf Datblygu Diwydiannol 1982

Dan Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982 (“IDA”) mae’r llywodraeth yn gallu darparu cymorth ariannol i ddiwydiant yn y Deyrnas Unedig. Mae’r llywodraeth yn cynnig y dylid diweddaru’r Ddeddf hon er mwyn iddi adlewyrchu’r realiti economaidd sydd ohoni ar hyn o bryd yn fwy cywir.

Cyhoeddwyd: 20fed Gorffennaf

Ymatebion erbyn: 19eg Hydref

Ymholiadau at: David Francis, Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, 1 Victoria Street, Llundain SW1H 0ET | 0207 215 5000 | IDArevision@bis.gov.uk

Mae’r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i: Weinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, Partneriaethau Menter Lleol yn Lloegr, busnesau sy’n derbyn cymorth rhanbarthol, eraill sydd â diddordeb.

## 2. Crynodeb Gweithredol

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn am ba mor fuddiol fyddai diwygio'r IDA er mwyn diweddaru rhai o'i darpariaethau er mwyn adlewyrchu'r realiti economaidd cyfredol yn fwy cywir. Ym marn y llywodraeth mae nifer o ofynion sydd wedi dyddio yn yr IDA, a fu'n ddigyfnewid er 1982. Rydym yn gofyn am sylwadau ynghylch y pedwar diwygiad arfaethedig canlynol i'r IDA.

Ceir testun llawn y ddeddf yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1982/52

Gwahoddir sylwadau gan randdeiliaid ar bedair agwedd ar y newidiadau arfaethedig i'r IDA:

i) dileu statws Gogledd Iwerddon fel ardal a gynorthwyir yn awtomatig,

ii) cynyddu'r terfyn cymorth fesul prosiect (o'r terfyn presennol, sef £10 miliwn) – mae'n rhaid cael cynnig seneddol y tu hwnt i'r terfyn hwnnw; a dileu'r manylion sy'n eithrio taliadau dan warantau mewn arian cyfred tramor o'r terfyn uwch hwnnw,

iii) cynnwys telathrebu a band eang yn niffiniad y "gwasanaethau sylfaenol" y gall y Llywodraeth gyfrannu atynt mewn ardal ddatblygu,

iv) ehangu ar ba sail y gall y Llywodraeth ddatblygu tir a gaffaelir ganddi.

Bydd y sylwadau yn cael eu casglu a'u crynhoi er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gael eu hadolygu. Yna fe gyhoeddir ymateb ar lein yn www.bis.gov.uk/IDArevision

O ganlyniad i ddeddfwriaeth datganoli (Deddf yr Alban 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (SI 1999/672) a Deddf Llywodraeth Cymru 2006) mae rhai pwerau dan yr IDA wedi eu harfer er 1 Gorffennaf 1999 yn yr Alban gan Brif Weinidog yr Alban ac er 25 Mai 2007 yng Nghymru gan Weinidogion Cymru. Arferwyd y pwerau hyn yn gydgyfredol ledled y Deyrnas Unedig er Mehefin 2009, gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS). Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, swyddfeydd tiriogaethol ac adrannau eraill y llywodraeth cyn lansio'r ymgynghoriad hwn.

Gweler Atodiad 3 ar gyfer asesiad effaith drafft. Bydd Asesiad Effaith ar wahân, a fydd yn cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Iwerddon, yn cael ei gynhyrchu yn 2012 ynghylch gweithredu'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol newydd er mwyn llunio'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir ar ôl 2013.

## 3. Sut i Ymateb

Wrth ymateb, a wnewch chi nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, a wnewch chi nodi'n eglur pwy y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli trwy ddewis y grŵp diddordeb priodol ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a, lle bo'n gymwys, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Gallwch ymateb i'r Ymgynghoriad hwn ar lein

Neu mae copi o'r ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar gael yn **www.bis.gov.uk/IDArevision** a gellir ei hanfon trwy lythyr, ffacs neu e-bost at:

Ymateb i Ymgynghoriad yr IDA
Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd
Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
1 Victoria Street. Llundain SW1H 0ET
Ffôn: 0207 215 5000
E-bost IDArevision@bis.gov.uk

Os ydych yn defnyddio copi caled o'r ddogfen ymgynghorol hon, a wnewch chi ymateb gan ddefnyddio'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad y gellir ei thynnu'n rhydd, yn Atodiad 4.

Mae rhestr o'r rhai sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn Atodiad 2. Byddem yn croesawu awgrymiadau am eraill a fyddai o bosib yn dymuno bod yn rhan o'r broses ymgynghorol hon.

Gan mai mater technegol yw hwn yn bennaf gydag elfennau o ddiddordeb arbenigol, yn dilyn trafodaethau gyda gweinyddiaethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, ymarferiad ysgrifenedig yn unig fydd hwn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad ar gyfer Ymgynghori. Gweler Atodiad 1 os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y modd y cynhelir yr ymgynghoriad.

## 4. Copïau Ychwanegol

Gallwch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn caniatâd. Ceir rhagor o gopïau wedi'u hargraffu o'r ddogfen ymgynghorol gan:

BIS Publications Orderline
ADMAIL 528
Llundain SW1W 8YT
Ffôn: 0845-015 0010
Ffacs: 0845-015 0020
Minicom: 0845-015 0030
www.bis.gov.uk/publications

Ceir fersiwn electronig yn **www.bis.gov.uk/IDArevision**. Mae fersiynau eraill o'r ddogfen mewn Braille, mewn ieithoedd eraill neu ar dâp sain i'w cael ar eich cais. Mae fersiwn Saesneg i'w gael yn www.bis.gov.uk/IDArevision

## 5. Cyfrinachedd a Diogelu Data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r trefnau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych eisiau i wybodaeth a ddarparwch, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gael ei thrin yn gyfrinachol, fe ymdrechwn i barchu eich dymuniad, fodd bynnag cofiwch y gall y gweithredu'r ddeddfwriaeth olygu gwrthwneud cyfrinachedd.

Yng ngoleuni hyn, fe fyddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio wrthym pam rydych o'r farn fod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi cyfrif llawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system Technoleg Gwybodaeth, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran.

## 6. Ymgynghoriadau eraill gan Lywodraeth y DU

Yn ddiweddar cynhaliodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgynghoriad arall ynghylch 'Adfer Cydbwysedd yn Economi Gogledd Iwerddon' http://www.hmtreasury.gov.uk/consult_rebalancing_ni_economy.htm, gan ystyried amgylchiadau economaidd neilltuol economi Gogledd Iwerddon. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 8 Gorffennaf 2011. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi bellach yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw gyda'r nod o gyhoeddi ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn yr hydref.

## 7. Cymorth gydag ymholiadau

David Francis
Y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd
Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau,
1 Victoria Street. Llundain SW1H 0ET
Ffôn: 0207 215 5000
E-bost: IDArevision@bis.gov.uk

Mae copi o Gôd Ymarfer yr Ymgynghoriad yn Atodiad 1.

# 8. Y cynigion

## 8.1 Map Ardaloedd a Gynorthwyir (IDA adran 7)

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1982/52

**Cefndir:** Yn unol â'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir gellir darparu cymorth gwladwriaethol yn gyfreithiol a chyda chaniatâd er dibenion datblygu rhanbarthol mewn ardaloedd neilltuol ar gyfer mentrau neu fusnesau sydd eisiau ehangu, moderneiddio neu leoli mewn rhannau penodol o'r Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn dynodi nenfwd poblogaeth ar y cyfanswm a gwmpasir gan ardaloedd a gynorthwyir mewn Aelod-wladwriaethau ar sail mesurau amddifadedd gwrthrychol – ar hyn o bryd gall hyd at 23.9% o boblogaeth y Deyrnas Unedig ddod o fewn statws ardal a gynorthwyir.

Mae rhai ardaloedd, sef Cernyw ac Ynysoedd Sili, a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn cael eu cynnwys yn y map yn fandadol oherwydd eu hamddifadedd cymharol o gymharu â rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal, mae rhyddid i'r Aelod-wladwriaethau ddynodi ardaloedd eraill yn rhai â statws ardal a gynorthwyir hyd at y nenfwd poblogaeth yn seiliedig ar eu hamddifadedd cymharol ac ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf a bennir gan y Comisiwn yn y canllawiau cymorth rhanbarthol. Rhaid i'r map ardaloedd a gynorthwyir a gynhyrchir o ganlyniad i hynny gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn. Rhoddir y map ar waith yn neddfwriaeth ddomestig y Deyrnas Unedig trwy adran 7 yr IDA.

**Y sefyllfa gyfredol:** oherwydd y sefyllfa wleidyddol ac economaidd adeg ei pharatoi, fe wnaeth yr IDA gynnwys 100% o boblogaeth Gogledd Iwerddon yn fandadol ym map cymorth rhanbarthol y Deyrnas Unedig (mae ei fersiwn gyfredol yn ymdrin â 2007-2013). O ganlyniad i hyn bu ardaloedd cymharol ffyniannus yng Ngogledd Iwerddon yn gymwys i dderbyn cymorth tra oedd ardaloedd llai ffyniannus yng ngweddill y Deyrnas Unedig (o'i fesur yn nhermau GDP y pen) yn methu.

Byddai parhau i ddynodi 100% o Ogledd Iwerddon yn awtomatig yn ardal a gynorthwyir, ni waeth am yr asesiad GDP y pen, yn cyfyngu ar hyblygrwydd y Deyrnas Unedig i ail-drafod y map cymorth yn ei gyfanrwydd gyda'r Comisiwn cyn 2014, gan y byddai'n ddiwahân yn defnyddio cyfran o gyfanswm y dyraniad ardaloedd a gynorthwyir a roddir i'r Deyrnas Unedig. Gwaethygir y sefyllfa oherwydd y bydd y Comisiwn yn debygol o geisio lleihau cyfanswm y boblogaeth sy'n gallu byw mewn ardal a gynorthwyir (sef 23.9% ar hyn o bryd) yn unol ag egwyddorion llai o gymorth a hwnnw wedi'i dargedu'n well.

**Dewis arfaethedig:** Newid adran 7(6) yr IDA a dileu'r ffaith y cynhwysir Gogledd Iwerddon yn awtomatig yn niffiniad ardal a gynorthwyir gan olygu o 2014 y bydd yr holl ardaloedd o'r fath yn cael eu hadnabod ar sail gyfartal ledled y Deyrnas Unedig yn unol â'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol diwygiedig.

**Cwestiwn:** A ddylid dileu'r ffaith y cynhwysir Gogledd Iwerddon yn awtomatig fel ardal a gynorthwyir?

**Costau a Buddion**:  Trwy ddileu Gogledd Iwerddon rhag cael ei chynnwys yn awtomatig, ni fyddai hynny o anghenraid yn golygu y byddai Gogledd Iwerddon yn cael ei hepgor yn llwyr o'r dosbarthiad ardaloedd a gynorthwyir. Byddai Gogledd Iwerddon yn parhau'n gymwys i dderbyn cymorth petai'n bodloni'r meini prawf GDP y pen ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Fodd bynnag, fe fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ddyrannu cymorth y map cymorth rhanbarthol ledled y Deyrnas Unedig gyfan.

Ni waeth beth fyddai hyd a lled terfynol yr ardal a gynorthwyir yng Ngogledd Iwerddon, yn dilyn gweithredu'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol newydd a chytuno ar y map Ardaloedd a Gynorthwyir ar ôl 2013, byddai pob ardal yng Ngogledd Iwerddon yn parhau'n gymwys ar gyfer mathau eraill o gymorth megis Ymchwil a Datblygu a chymorth ar gyfer hyfforddiant. Cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb o ran goblygiadau'r dyraniad diwygiedig ar gyfer Gogledd Iwerddon ar ôl 2013 pan fydd y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol newydd yn cael eu gweithredu i lunio'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir ar ôl 2013.

## 8.2. Terfyn Ariannol Fesul Prosiect >£10m ac alinio gwarantau mewn arian tramor fesul prosiect (IDA adran 8(8))

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1982/52

**Cefndir**: Yn ychwanegol at gymorth rhanbarthol dan adran 7 gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddarparu cymorth ariannol dan adran 8 yr IDA. Mae terfyn uchaf ar y cyfanswm y gellir ei wario ar gymorth o'r fath, fel sydd ar gyfer y swm y gellir ei gymhwyso ar gyfer unrhyw un prosiect neilltuol. Bu'r terfyn fesul prosiect yr un fath er 1982, sef £10 miliwn. Lle bo'r llywodraeth o'r farn y dylid mynd y tu hwnt i'r terfyn fesul prosiect hwn rhaid cael cynnig ar gyfer hynny yn Nhŷ'r Cyffredin.

Ym marn y llywodraeth dylai'r trothwy fesul prosiect adlewyrchu gofynion buddsoddi diwydiannol modern er mwyn i'r Deyrnas Unedig barhau'n gystadleuol. Y cynnig yw y dylai'r terfyn (yn adran 8(8) yr IDA) gael ei gynyddu i £50 miliwn - er bod yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ynghylch ai dyma'r swm cywir. Fe fydd yn parhau'n angenrheidiol sicrhau cynnig ar gyfer unrhyw wariant ar un prosiect sy'n uwch na'r terfyn newydd.

**Dewisiadau**:

1. Diwygio'r swm i £27 miliwn er mwyn adlewyrchu effaith chwyddiant rhwng 1982 a 2011
2. Diwygio'r swm i £50 miliwn er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn GDP y Deyrnas Unedig rhwng 1982 a 2011
3. Gadael y swm heb ei newid, sef £10 miliwn

**Cwestiwn**: Pa un o'r dewisiadau uchod y dylid ei fabwysiadu?

**Costau/Buddion**: Y dewis a ffafrir yw diwygio'r swm yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn GDP er 1982, gan olygu mai £50 miliwn fyddai'r ffigur newydd. Byddai hyn yn adlewyrchu graddau'r

adnodd cenedlaethol y gellid ei ddefnyddio ar gyfer datblygu diwydiannol. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol i'r Llywodraeth o ganlyniad i'r newid hwn gan ei fod yn caniatáu mwy o ariannu er mwyn ymateb i amgylchiadau economaidd ond heb osod unrhyw ddyletswydd ar y Llywodraeth i ymgysylltu ag ariannu o'r fath. Os a phan fydd y Llywodraeth yn penderfynu dyfarnu grantiau byddai hyn yn ddarostyngedig i ddadansoddiad cost a budd yn ôl Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.

Mae'r uchafswm yn adran 8(5) yn cyfyngu cyfanswm y gwariant dan adran 8 i £12,000 miliwn. Ni fydd maint yr uchafswm yn adran 8(5) yn cael ei newid dan y cynigion hyn.

Yn gysylltiedig â'r newid arfaethedig yn y terfyn fesul prosiect yn adran 8(8) y mae cynnig i ddiwygio adran 8 yr IDA ymhellach fel na wahaniaethir rhwng cymorth a delir ar ffurf trafodion sterling neu rai mewn arian tramor wrth gymhwyso'r uchafsymiau ariannol. Petaent yn aros heb newid, gellid cynnal trafodion wedi'i gwarantu mewn arian tramor fesul prosiect heb uchafswm (yn amodol ar y terfyn cyfanswm cyffredinol o £1,000 miliwn o hawliau tynnu arbennig). Mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai'r uchafswm fesul prosiect diwygiedig fod yn gymwys ni waeth pa arian cyfred a ddefnyddir. Y nod yw gwneud pethau'n fwy tryloyw a chael gwell trosolwg ar gymorth ar gyfer datblygu diwydiannol.

**Cwestiwn:** A ddylid dileu'r gallu i ddarparu gwarantau arian tramor fesul prosiect heb uchafswm ariannol ac yn lle hynny eu halinio â'r terfyn sterling diwygiedig?

**Costau/Buddion:** Mae'r dadansoddiad sy'n berthnasol i'r cynnydd arfaethedig yn y terfyn sterling yr un mor gymwys.

## 8.3. Ychwanegu Telathrebu a Band Eang at y "gwasanaethau sylfaenol" (IDA adran 13(2))

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1982/52

**Cefndir:** Mae'r IDA yn caniatáu i Weinidog ddyfarnu grantiau neu fenthyciadau tuag at gost gwella "gwasanaethau sylfaenol" mewn ardal ddatblygu ble byddai hyn yn cyfrannu at ddatblygu diwydiant yn yr ardal honno. Ar hyn o bryd mae'r rhestr o wasanaethau sylfaenol yn adran 13(2) yr IDA yn cynnwys trafnidiaeth, pŵer, goleuo, gwresogi, dŵr neu garthffosiaeth neu "unrhyw wasanaeth arall y mae datblygiad yr ardal … yn ddibynnol arno." Polisi'r Llywodraeth yw y dylid ehangu'r rhestr fel y gellir cynnwys telathrebu a band eang yn benodol.

**Dewis**: Diweddaru'r IDA i gynnwys telathrebu a band eang ymysg y gwasanaethau sylfaenol er mwyn caniatáu buddsoddi addas i hybu twf mewn ardal a eithrir yn ddigidol.

**Cwestiwn**: A ddylid diweddaru'r IDA i gynnwys telathrebu a band eang yn y rhestr o wasanaethau sylfaenol?

**Costau/Buddion:** Nid oes cost uniongyrchol i'r Llywodraeth o ganlyniad i'r newid hwn. Y budd yw y byddai gan Weinidogion hyblygrwydd i ariannu gwasanaethau band eang yn uniongyrchol mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth ddigonol er mwyn hybu datblygu diwydiannol.

## 8.4 Gallu rheoli tir sy'n eiddo i'r llywodraeth (IDA adran 14(3))

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1982/52

**Cefndir**: Mae'r IDA yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddatblygu tir ac adeiladau a gaffaelir ganddo mewn ardal a gynorthwyir dan yr IDA neu dan Ddeddf Gwaith Lleol 1972. Mae'r Llywodraeth yn rhagweld y gallai fod achosion pryd y bydd tir ac adeiladau yn cael eu caffael gan yr Ysgrifennydd Gwladol y tu allan i ardaloedd o'r fath (er enghraifft tir sy'n eiddo i'r Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol (RDA) y bwriedir eu diddymu dan ddeddfwriaeth). Y cynnig yw hyn, sef y bydd adran 14 yr IDA yn cael ei diwygio i ymestyn pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnwys tir y gall y llywodraeth ei gaffael dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus neu'r Ddeddf Lleoliaeth neu unrhyw ddeddfwriaeth debyg sy'n trosglwyddo asedau a ddelir gan gyrff cyhoeddus eraill ar hyn o bryd megis yr RDA. Fe fyddai hyn, er enghraifft, yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddal rheolaeth ar brosiectau wedi'u cwblhau'n rhannol ar dir o'r fath.

**Dewis**: Ehangu'r pwerau yn adran14 yr IDA i gynnwys tir a gaffaelir gan y Llywodraeth dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus arfaethedig, y Ddeddf Lleoliaeth neu ddeddfwriaeth debyg.

**Cwestiwn**: A ddylid newid yr IDA i ehangu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â chaffael a datblygu tir i dir a gaffaelir heblaw dan yr IDA neu Ddeddf Gwaith Lleol 1972?

**Costau/Buddion**: Trwy wneud yr addasiad hwn bydd y Llywodraeth yn gallu dal rheolaeth briodol ar asedau tir a rhwymedigaethau (megis tir neu adeiladau wedi hanner eu datblygu) a gaffaelir, er enghraifft, oherwydd diddymu'r RDA. Cost peidio â gwneud hyn fyddai i'r llywodraeth fethu â manteisio ar werth llawn tir o'r fath.

# 9. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A ddylid dileu'r ffaith y cynhwysir Gogledd Iwerddon yn awtomatig fel ardal a gynorthwyir?

Pa un o'r dewisiadau a restrir y dylid ei fabwysiadu ar gyfer codi'r terfyn ariannol fesul prosiect ar gyfer cymorth ariannol adran 8?

A ddylid dileu'r gallu i ddarparu gwarantau arian tramor fesul prosiect heb uchafswm ariannol ac yn lle hynny eu halinio â'r terfyn sterling diwygiedig?

A ddylid newid yr IDA i gynnwys telathrebu a band eang yn y rhestr o wasanaethau sylfaenol y gellir rhoi arian i'w gwella mewn ardal ddatblygu?

A ddylid newid yr IDA i ehangu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â chaffael a datblygu tir?

Mae Asesiad Effaith drafft i'w gael ar ein gwefan www.bis.gov.uk/IDArevision. Os gwelwch yn dda a wnewch chi roi sylwadau am y cynigion uchod – gyda thystiolaeth ategol – er mwyn gwneud rhagor o argymhellion ar gyfer newid. A wnewch chi nodi unrhyw ganlyniad nas bwriedir neu oblygiadau eraill sy'n perthyn i'n cynigion. Rydym yn croesawu sylwadau ynghylch y dadansoddiad cost a budd hefyd.

## 10. Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl y dyddiad cau, sef 19eg Hydref, bydd yr ymatebion yn cael eu dwyn ynghyd a'u crynhoi er sylw'r Ysgrifennydd Gwladol.

Yna cyhoeddir ymateb ar lein o fewn 3 mis i ddiwedd yr ymgynghoriad yn www.bis.gov.uk/IDArevision

## 11. Dolenni

- Dolen at wefan yr ymgynghoriad www.bis.gov.uk/IDA82revision
- Dolen at yr IDA 1982 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1982/52
- Adroddiad blynyddol yr IDA http://www.bis.gov.uk/assets/biscore/economic-development/docs/i/10-74-ind-dev-annual-report-2009-2010

# Atodiad 1: Meini Prawf Côd Ymddygiad yr Ymgynghoriad

Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gam pan fo lle i ddylanwadu ar ganlyniad polisi.

Fel arfer dylai ymgynghoriad barhau o leiaf 12 wythnos gan ystyried amserlen hwy pan fo hynny'n ymarferol a synhwyrol.

Dylai dogfennau ymgynghorol fod yn eglur o ran y broses ymgynghorol, yr hyn a gynigir, y posibiliadau i ddylanwadu, a chostau a buddion disgwyliedig y cynigion.

Dylid cynllunio'r ymarferiad ymgynghorol fel ei fod yn hygyrch i'r bobl y bwriedir i'r ymarferiad ei gyrraedd ac wedi'i dargedu'n amlwg atynt.

Mae'n hanfodol cadw baich yr ymgynghoriad cyn lleied ag y bo modd er mwyn i ymgynghoriadau fod yn effeithiol ac er mwyn sicrhau fod y rhai yr ydym yn ymgynghori â hwy yn ymroi i'r broses.

Dylid dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus a rhoi adborth eglur i gyfranwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.

Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau sicrhau arweiniad ynghylch cynnal ymarferiad ymgynghorol effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r profiad.

## Sylwadau neu gwynion

Os ydych yn dymuno gwneud sylwadau ynghylch y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn neu wneud cwyn ynghylch y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, a wnewch chi ysgrifennu at:

Tunde Idowu,
BIS Consultation Co-ordinator,
1 Victoria Street,
Llundain
SW1H 0ET

Ffoniwch Tunde ar 020 7215 0412
Neu e-bostiwch: Babatunde.Idowu@BIS.gsi.gov.uk

# Atodiad 2: Rhestr o Unigolion/Sefydliadau yn yr ymgynghoriad

Byddem yn arbennig o awyddus i glywed gan y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a Phartneriaethau Menter Lleol yn Lloegr. Fodd bynnag, ni chyfyngir yr ymgynghoriad i’r grwpiau hyn; mae rhyddid i bawb gymryd rhan a byddwn yn ystyried eu barn.

Rydym yn croesawu awgrymiadau am enwau unigolion neu sefydliadau eraill a ddylai dderbyn yr ymgynghoriad hwn hefyd.

## Atodiad 3: Asesiad Effaith

Mae asesiad effaith drafft i'w gael yn www.bis.gov/IDArevision. Bydd asesiad effaith llawn yn cael ei ddatblygu fel rhan o ymgynghoriad ar wahân ynghylch y Map Cymorth Rhanbarthol ar ôl 2013.

## Atodiad 4: Ffurflen ymateb Diwygio'r Ddeddf Datblygu Diwydiannol

Gallwch ymateb ar lein neu gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb hon. Mae dolen rhwng y fersiwn ar lein a gwefan yr ymgynghoriad www.bis.gov.uk/IDArevision

Gall yr Adran, yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, wneud ymatebion unigol ar gael, o dderbyn cais cyhoeddus amdanynt.

Dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn yw 14/10/2011

Dychwelwch ffurflenni cyflawn at:
Ymateb i Ymgynghoriad yr IDA, 4Spur, Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, 1 Victoria Street neu drwy e-bost i [IDArevision@bis.gov.uk](mailto:IDArevision@bis.gov.uk)
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Enw:
Sefydliad (os yw'n berthnasol):
Cyfeiriad:

Ticiwch y bocs o blith y rhestr o ddewisiadau isod sy'n eich disgrifio orau fel ymatebydd. Fel hyn, gallwn gyflwyno barn yn ôl mathau o grwpiau.

| | |
|---|---|
| | Sefydliad cynrychioli busnes/corff masnach |
| | Gweinyddiaeth Ddatganoledig |
| | Llywodraeth ganolog |
| | Elusen neu fenter gymdeithasol |
| | Unigolyn |
| | Busnes mawr (dros 250 o staff) |
| | Cynrychiolydd cyfreithiol |
| | Llywodraeth leol |
| | Busnes canolig (50 i 250 o staff) |
| | Micro fusnes (hyd at 9 o staff) |
| | Busnes bach (10 i 49 o staff) |
| | Undeb llafur neu gymdeithas staff |
| | Arall (disgrifiwch, os gwelwch yn dda): |

**Cwestiwn 1: A ddylid dileu'r ffaith y cynhwysir Gogledd Iwerddon yn awtomatig fel ardal a gynorthwyir?** *(para 8.1 yn y ddogfen ymgynghorol)*

☐ Dylid ☐ Na ddylid ☐ Ddim yn siŵr

Sylwadau:

**Cwestiwn 2: Pa un o'r dewisiadau a restrir y dylid ei fabwysiadu ar gyfer codi'r terfyn ariannol fesul prosiect ar gyfer cymorth ariannol adran 8?** *(para 8.2 yn y ddogfen ymgynghorol)*

Diwygio'r swm i £27 miliwn er mwyn adlewyrchu effaith chwyddiant rhwng 1982 a 2011 ☐

Diwygio'r swm i £50 miliwn er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn GDP y Deyrnas Unedig rhwng 1982 a 2011☐

Gadael y swm heb ei newid, sef £10 miliwn ☐

Sylwadau:

**Cwestiwn 3: A ddylid dileu'r gallu i ddarparu gwarantau arian tramor fesul prosiect heb uchafswm ariannol ac yn lle hynny eu halinio â'r terfyn sterling diwygiedig?** *(para 8.2 yn y ddogfen ymgynghorol)*

☐ Dylid ☐ Na ddylid ☐ Ddim yn siŵr

Sylwadau:

**Cwestiwn 4: A ddylid newid yr IDA i gynnwys telathrebu a band eang yn y rhestr o wasanaethau sylfaenol y gellir rhoi arian i'w gwella mewn ardal ddatblygu?** *(para 8.3 yn y ddogfen ymgynghorol)*

☐ Dylid ☐ Na ddylid ☐ Ddim yn siŵr

Sylwadau:

**Cwestiwn 5: A ddylid newid yr IDA i ehangu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â chaffael a datblygu tir?** *(para 8.4 yn y ddogfen ymgynghorol)*

☐ Dylid ☐ Na ddylid ☐ Ddim yn siŵr

Sylwadau:

**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill allai fod o gymorth i'r broses ymgynghorol yn ei chyfanrwydd?**

Defnyddiwch y gofod hwn ar gyfer unrhyw sylwadau cyffredinol sydd gennych, byddem yn croesawu sylwadau ynghylch y modd y gosodwyd yr ymgynghoriad hwn hefyd.

Diolch am roi o’ch amser i rannu eich barn gyda ni. Nid ydym yn bwriadu cydnabod derbyn ymatebion unigol oni bai eich bod yn ticio’r bocs isod.

A wnewch chi gydnabod derbyn yr ymateb hwn ☐

Yn BIS rydym yn cynnal ymchwil ynghylch gwahanol destunau ac ymgynghoriadau. Mae eich barn yn bwysig i ni, felly a fyddai hi’n iawn petaem yn cysylltu â chi eto o bryd i’w gilydd naill ai ar gyfer ymchwil neu i anfon dogfennau ymgynghorol atoch?

☐ Byddai ☐ Na fyddai

© Hawlfraint y Goron 2011

Gallwch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan hefyd yn http://www.bis.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
1 Victoria Street
Llundain SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 5000

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, anfonwch e-bost at  enquiries@bis.gsi.gov.uk, neu ffoniwch 020 7215 5000.

URN 11/1099